COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 19 MEHEFIN 2018 AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

PJ White D Patel

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

CE Smith, HM Williams a/ac RE Young

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |

209. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

210. PERFFORMIAD ARIANNOL 2017-18

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Interim adroddiad a diben yr adroddiad rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet ar berfformiad ariannol y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Rhoddodd yr adroddiad beth gwybodaeth gefndir, gan gadarnhau bod y Cyngor ar 1 Mawrth 2017 wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £258.093m ar gyfer 2017-18, ynghyd â rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn o £63.854m, oedd wedi ei diweddaru yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn ystyried cymeradwyaethau newydd a llithriant cynlluniau i 2018-19.

Gwnaeth adran nesaf yr adroddiad, amlinellu yn Nhabl 1 gymhariaeth o gyllideb yn erbyn alldro gwirioneddol ar 31 Mawrth 2018, gan gadarnhau bod yr alldro cyffredinol ar y dyddiad uchod yn danwariant o £387k sydd wedi ei drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor.

Roedd Tabl 2 yn yr adran nesaf yr adroddiad, yn cynnwys Trosglwyddiadau ac addasiadau technegol a broseswyd yn ystod Chwarter 4, ac roedd paragraff 4.2 o'r adroddiad yn tynnu sylw at Ostyngiadau Cyllideb ar gyfer 2016-17 a 2017-18 a monitro parhaus y rhain gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.

Roedd adran nesaf yr adroddiad yn rhoi sylwadaeth ar sefyllfa ariannol prif feysydd gwasanaeth yr Awdurdod (gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion), yn gystal â sylwadau ar yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol ym mhob un o wahanol feysydd Cyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Yna rhoddodd paragraff 4.4 o'r adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar Raglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2017-18, gan gynnwys cymeradwyaethau newydd sydd nail ai'n cael eu cyllido gan grant neu'n ymwneud â chynlluniau a ariannwyd gan refeniw ond sydd wedi eu hail ddosbarthu fel gwariant cyfalaf, yn unol â gofynion cyfrifo, er enghraifft offer TGCh (£151k) a mân waith. Dangosodd paragraff 4.4.3 fanylion am y prif gynlluniau lle roedd angen llithriant, a'r rhesymau dros y llithriant.

Roedd Atodiad 4.4.4 wedyn yn amlinellu manylion y cynlluniau unigol yn y Rhaglen Gyfalaf, gan ddangos y gyllideb oedd ar gael yn 2017-18 o gymharu â'r gwariant gwirioneddol. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Interim mai cyfanswm y gwariant ar 31 Mawrth 2018 oedd £36.584 miliwn, a arweiniodd at danwariant bach o £39k ar adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), a fyddai'n cael ei ddychwelyd i'r gronfa derbyniadau cyfalaf.

Cyfeiriodd yr adroddiad wedyn at Gronfeydd wrth gefn wedi eu Clustnodi'r Cyngor, gan gynnwys yr arian a dynnwyd i lawr o'r rhain yn ystod 2017-18. Roedd tabl 6 yn yr adroddiad yn rhoi symudiad manwl pellach ar y rhain ar gyfer y cyfnod uchod. Darparwyd manylion llawn am y sefyllfa'n ymwneud â Chronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd yn Atodiad 5 i'r adroddiad.

Yn olaf, dangosodd Tabl 7 yn 4.5.3 o'r adroddiad y Dyraniadau Net i/o Gronfeydd wrth gefn wedi eu Clustnodi yn ystod Chwarter 4.

Cyfeiriodd aelod at dudalen 12 o'r adroddiad a thynnu sylw at y ffaith bod £1.183m o orwariant ym maes Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) yn ystod y 3 blynedd diwethaf, a gofynnodd hi a oedd y sefyllfa yma yn gwella.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal yn amrywio ond hefyd yn dangos arwyddion eu bod yn lleihau, felly byddai gorwario yn y maes gwasanaeth hwn, gobeithio, yn parhau i wella yn y dyfodol.

Nododd aelod hefyd fod y cynnydd yn niferoedd y plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn arwain at y Cyngor yn gorfod darparu mwy o Drafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol yn ogystal â cheisio darparu cynnydd o ran Llwybrau Diogel i Ysgolion.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai dyma oedd yr achos, a bod hyn yn waith parhaus, ac y byddai ef yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ddiweddariadau ar yr uchod maes o law, pan fyddai'r darnau hyn o waith wedi cael eu cwblhau.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr eitem hon i ben, drwy gynghori bod y Cyngor wedi lleihau £400k o'r gorwariant, o ganlyniad i'r defnydd o Ofalwyr Maeth Mewnol o gymharu â'r Gofalwyr Maeth Annibynnol mwy drud.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa Alldro Refeniw a Chyfalaf gwirioneddol ar gyfer 2017-18.

211. CYNNIG I GYNNWYS Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL A RENNIR (RIASS) MEWN GWASANAETH MWY A GYNHELIR GAN GYNGOR BRO MORGANNWG I GYNNWYS DAU GYNGOR YCHWANEGOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 adroddiad, oedd yn nodi cynnig ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor sydd eisoes yn rhan o'r Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIASS) a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg, i ddod yn rhan o gydweithrediad mwy.

Tynnodd cefndir i'r adroddiad sylw at drefniant sydd wedi bodoli ers 2012, lle roedd gan CBSP a Cyngor Bro Morgannwg drefniant partneriaeth yn ei le o ran darparu Cydwasanaeth Archwilio Mewnol.

Cynghorodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 fod, fel roedd yr adroddiad yn awgrymu, cynnig bellach i ymestyn y bartneriaeth hon er mwyn cynnwys dau awdurdod lleol arall, h.y. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Byddai hyn yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i allu darparu'r Cynllun Archwilio, drwy lenwi swyddi gwag a oedd ar hyn o bryd yn rhy anodd recriwtio ar eu cyfer.

Eglurodd y byddai ymestyn y cydweithio hwn hefyd yn gwella gwydnwch y gwasanaeth ymhellach drwy gael tîm mwy o staff, o gymharu â'r drefn bresennol o dimau llai ar wahân ar draws llai o awdurdodau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg fyddai'n parhau i fod yr awdurdod cyflogi unigol ar gyfer staff, ac y byddai staff priodol yn y ddau Awdurdod newydd fyddai'n ehangu'r Gwasanaeth yn agored i drefniadau TUPE ac yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod cynnal. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn effeithio ar staff CBSP, ychwanegodd.

Cynghorodd yr Arweinydd bod hwn yn enghraifft ardderchog o awdurdodau lleol yn cymryd yr awenau er mwyn gweithio gyda'i gilydd drwy drefniant cydweithredol, o gymharu â chael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Cymeradwyo'r cynnig i'r RIASS ehangu i gynnwys RhCT a Merthyr gyda Chyngor Bro Morgannwg yn parhau i weithredu fel yr awdurdod cynnal;

(2) Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, i wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddod yn rhan o RIASS estynedig yn amodol ar Drefniant a Chytundeb Partneriaeth;

(3) Nodi y byddai'r adroddiad hwn, yn amodol ar ei gymeradwyo, yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ac y byddai'r Pwyllgor yn derbyn o dasg o oruchwylio'r trefniadau gweithredu sydd eu hangen yn ystod 2018/19.

212. CYFRADDAU ANNOMESTIG: RHYDDHAD DEWISOL: CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI STRYD 2018-19

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog S151 adroddiad, yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19.

Cadarnhaodd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai'r fenter hon ar gael ar gyfer 2018-19 i gynorthwyo busnesau yn y sector manwerthu yng Nghymru. Roedd y cynllun yn gosod allan y categorïau gwahanol o safleoedd fyddai'n cael budd o Ryddhad a chafodd y rhain eu nodi mewn manylder yn Atodiad A i'r adroddiad.

Cadarnhaodd ymhellach y byddai'r Cyngor yn ariannu cost gychwynnol y Cynllun, ond yna byddai'n derbyn ad-daliad yn unol â hynny gan Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog S151 y byddai angen, er mwyn gweithredu'r Cynllun, rhoi dirprwyaeth i'r Prif Weithredwr o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor, ar hyd y llinellau a ddangosir ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.

Wedi i'r cynllun gael ei fabwysiadu, byddai'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â rheolau Llywodraeth Cymru wrth ddefnyddio'r Cynllun, ychwanegodd.

Roedd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn teimlo bod hon yn fenter dda, y gallai tua 391 o fanwerthwyr elwa ohoni, a gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn ysgrifennu at y manwerthwyr i'w hysbysu am y Cynllun, neu a fyddai'n rhaid iddyn nhw fynd at y Cyngor er mwyn elwa ohono.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog S151 ei bod yn siŵr y byddai'r Cyngor yn hysbysu busnesau lleol am y cynllun, yn hytrach na'u bod nhw yn mynd at y Cyngor eu hunain, er y byddai hi'n gwirio mai dyma oedd y broses.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, ychwanegodd fod y Cynllun hefyd yn rhoi gwybod i berchnogion busnes os ydynt yn cyfranogi yn y Cynllun, na ddylent dorri Rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

Cynghorodd yr Arweinydd ei bod yn gobeithio bod modd mabwysiadu'r Cynllun cyn gynted â phosibl fel bod busnesau lleol yn gallu elwa ohono heb oedi.

Cynghorodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog S151 y byddai hi'n sicrhau mai dyma fyddai'r achos, ond ychwanegodd na fyddai awdurdodau lleol yn gwybod a fyddai'r Cynllun yn digwydd yn fynych tan fis Ebrill 2019.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn:

(1) Mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Stryd Fawr fel y gwelir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r diwygiad i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau fel y nodir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

213. <u>POLISI RHEOLI COED CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR</u>

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau mai pwrpas yr adroddiad oedd tynnu sylw at werth poblogaeth Coed Trefol Sir Pen-y-bont ar Ogwr a gwneud gwaith rheoli coed sy'n flaenoriaeth a chymeradwyo Polisi Rheoli Coed hirdymor CBSP.

Eglurodd fod y gwaith yn digwydd yn erbyn cefndir o ystyried iechyd a diogelwch, yn ogystal ag arfer gorau mewn perthynas â chadwraeth a gwella amgylcheddol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod CBSP yn 2005 wedi llunio polisi corfforaethol i ddelio â chwynion a dderbynnir yng nghyd-destun coed ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac eithrio coed sy'n effeithio ar y briffordd. Ers hyn, mae protocol a rhestr wirio coed wedi eu paratoi a'u defnyddio fel asesiad coed cychwynnol.

Roedd paragraffau 3.8 a 3.9 o'r adroddiad wedyn yn tynnu sylw at wybodaeth ystadegol benodol yn ymwneud a choed a leolir yn y Fwrdeistref Sirol a sut yr oedd y rhain yn cynorthwyo'r amgylchedd.

Yna cadarnhaodd fod Gweithgor ar draws Cyfarwyddiaethau wedi ei sefydlu yn sgil hyn, er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer dull yn y dyfodol tuag at reoli coed ar dir sy'n eiddo i CBSP. Y ffocws yma oedd adolygu dull presennol y Cyngor o ran rheoli coed a chreu

Cynllun Polisi, Gweithdrefnau a Rheoli newydd gyda ffocws deuol ar elfennau iechyd a diogelwch a chadwraeth a gwella amgylcheddol. Cafodd yr opsiynau hyn eu cynnwys ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad.

Yna cyfeiriodd yr Aelodau at baragraff 4.7 o'r adroddiad, ble roedd yn cadarnhau bod Polisi Rheoli Coed newydd wedi ei ddatblygu, a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod CBSP wedi derbyn nifer mawr o geisiadau gan y cyhoedd i wneud gwaith ar goed a ystyrir yn ddianghenraid. Ychwanegodd na fyddai gwaith a ystyrir felly yn digwydd yn y Polisi hwn.

Ychwanegodd ymhellach fod y Polisi Rheoli Coed yn nodi y byddai CBSP yn ceisio arwain drwy enghraifft ar safleoedd o fewn ei reolaeth, drwy blannu a lle y bo'n ymarferol bosibl, ceisio annog plannu coed a choetiroedd ar safleoedd nad ydynt yn eiddo i CBSP.

Yn achos goblygiadau ariannol yr adroddiad, cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod swm o £70k ar gael drwy gronfa wrth gefn a glustnodwyd i ymgymryd â rhannau (a), (b), (d) ac € a amlinellir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad. Gwariwyd £21,355 yn 2017/18 a £13,615 pellach yn 2018/19. Roedd yn hyn gadael £35,030 i weithredu ar y coed mwyaf peryglus (ar gael yn y gronfa wrth gefn a glustnodwyd).

Cymeradwywyd yr adroddiad gan Aelodau'r Cabinet.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn:

(1) Nodi canfyddiadau'r adroddiad Gwerthuso Coed Trefol.

(2) Nodi'r cynnydd a wnaed i sefydlu dull newydd tuag at reoli coed presennol CBSP a chymeradwyo'r dull o ran plannu coed.

(3) Cymeradwyo Polisi Rheoli Coed newydd CBSP.

214. <u>DARPARU CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, i geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar ddarparu cyfleusterau cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad.

Eglurodd fod arbedion y cytunwyd arnynt wedi eu neilltuo fel rhan o gynigion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, mewn perthynas yn achos darparu toiledau a berchnogir ac a weithredir gan y Cyngor.

Ar gyfer gwybodaeth gefndirol, atgoffodd ef y Cabinet wedyn bod y Cyngor wedi cysylltu yn 2015 â'r cyhoedd ynglŷn â'r ddarpariaeth o gyfleusterau cyhoeddus, ac yn dilyn hyn, lleihawyd nifer y toiledau yng nghanol trefi'r Cyngor Bwrdeistref Sirol o 9 i 6 a digomisiynwyd y troethfeydd i ddynion yn unig.

Dangosodd paragraff 4.1 o'r adroddiad ar ffurf tabl wedyn leoliad y toiledau cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol a'u hamserau agor, tra bod paragraff 4.2 yn cynghori am arolwg ymgynghori cyhoeddus a wnaed dros gyfnod o 8 wythnos rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2018, ac roedd adrannau nesaf yr adroddiad yn amlinellu manylion am ganfyddiadau a chasgliadau hyn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, tra bod adborth yn cael ei ystyried, roedd rhaid ystyried rhai gweithredoedd o ran cau cyfleusterau cyhoeddus er mwyn gwneud yr arbedion a amlinellir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Roedd manylion llawn yr ymgynghoriad cyhoeddus a'i ganfyddiadau wedi eu cyplysu i Atodiad A i'r adroddiad, tra bod paragraff 4.21 yn cynnwys manylion am ddarpariaeth cyfleusterau cyhoeddus presennol sydd wedi'i chynllunio a threfniadau gweithredu ar gyfer toiledau a weithredir gan y Cyngor ym Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl gan gynnwys argymhellion ar gyfer gweithredu'r rhain yn y dyfodol.

Gorffennodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ei gyflwyniad drwy gynghori aelodau ynghylch goblygiadau ariannol yr adroddiad.

Cynghorodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn gadarnhaol gweld rhai Cynghorau Tref/Cymuned yn ymrwymo i gefnogi rhai cyfleusterau cyhoeddus mewn ymdrech i'w cadw mewn gweithrediad, trwy CAT ac ati.

Gorffennodd yr Arweinydd y drafodaeth drwy ddiolch i Trosolwg a Chraffu am eu mewnbwn ac am yr argymhellion yr oeddent wedi eu cyflwyno'n flaenorol yng nghyd-destun y mater hwn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Cymeradwyo'r trywydd gweithredu arfaethedig a ddisgrifir yn yr adroddiad, yn benodol y gweithredoedd a gyflwynir yn adran 4.21 yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo rhoi arwyddion ar y toiledau yn nerbynfa'r Swyddfeydd Dinesig er mwyn iddynt gael eu defnyddio gan y cyhoedd (i'w ariannu gan gyllideb refeniw strydlun), fel yr argymhellwyd gan yr aelodau Craffu yn adran 4.22 yr adroddiad.

215. MARCHNAD PEN-Y-BONT AR OGWR - CYNLLUN GWELLA

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, i argymell i'r Cabinet gymeradwyo a gweithredu Cynllun Gwella Rheoli i Farchnad Pen-y-bont ar Ogwr.

Cadarnhaodd fod nifer o fasnachwyr wedi dyfynnu'r costau rhentu cymharol uchel (o gymharu ag unedau manwerthu yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhai hynny mewn marchnadoedd tebyg yng Nghymru) a'r niferoedd uchel o unedau gwag fel eu prif resymau dros adael y farchnad.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynghori bod Watts and Morgan wedi cynghori bod unedau gwag yn y farchnad ar gael ac nad oeddent yn cael eu llenwi, gan fod y rhent ar gyfer y rhain yn cael ei osod yn rhy uchel. Roedd y ffactor hwn hefyd yn cael effaith ar faint o rent yr oedd CBSP yn ei gasglu, nad oedd mor dda ag y gallai fod pe byddai lefelau rhent ar gyfer lleoedd yn cael eu lleihau i lefel fwy rhesymol fyddai'n cynyddu diddordeb masnachwyr i'w cymryd. Byddai hyn hefyd wedyn yn cynorthwyo wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ychwanegodd.

Roedd adran nesaf yr adroddiad wedyn yn cyfeirio at gynigion marchnata ar gyfer y Farchnad Dan Do ynghyd â rhai cynigion yn ymwneud â thelerau prydlesi ar gyfer y dyfodol.

O ystyried goblygiadau ariannol yr adroddiad, cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai gostyngiad parhaol yn rhent masnachwyr presennol o 25% yn cael ei rewi tan Ebrill 2020, yn cynyddu diffyg o ran rhent yn y farchnad o £43,500 y flwyddyn. Cafodd gostyngiad rhent ar gyfer masnachwyr newydd ei gynnig er mwyn eu denu i'r farchnad. Bydd y gostyngiad hwn yn arwain at lai o incwm ar sail stondin unigol, o

gyfraddau presennol, ond gyda'i gilydd efallai na fydd hyn yn arwain at ostyngiad cyffredinol dramatig o ran incwm os yw nifer y stondinau a gaiff eu rhentu ac yn y pendraw y rhent yn cynyddu.

Gorffennodd y swyddog drwy nodi y byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at ddiffyg o ran cyllideb yr eir i'r afael ag ef yn gorfforaethol drwy adnoddau wrth gefn a glustnodwyd yn 2018/19. Fodd bynnag, bydd angen datblygu ateb tymor hwy wedi i'r adnoddau wrth gefn a glustnodwyd gael eu defnyddio.

Cynghorodd yr arweinydd fod Canolfan Siopa'r Rhiw, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Rhanbarth Gwella Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn gweithio gyda'r Cabinet ac Aelodau lleol er mwyn cefnogi cynigion yr adroddiad, yn ogystal â masnachwyr hefyd yn cael mewnbwn mawr, gyda'r bwriad o wella'r sefyllfa bresennol. Ychwanegodd ymhellach ei bod yn bwysig fod y cyhoedd yn ymwybodol bod CBSP yn prydlesu yn hytrach nag yn berchen ar y Farchnad Dan Do ar gost o £120k y flwyddyn.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cabinet ar y canlynol:

(1) Cyflwyno gostyngiad parhaol yn rhent Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr i fasnachwyr presennol o 25%, yn weithredol o 1 Gorffennaf 2018, a bod pob rhent yn cael ei rewi tan fis Ebrill 2020.

(2) Lleihau rhent gofyn a ddyfynnwyd gan Watts & Morgan. Byddai unrhyw rent newydd yn ddibynnol ar faint y stondin unigol ac yn adlewyrchu cyngor Watts & Morgan.

(3) Caniadau tenantiaeth masnachwyr newydd a fyddai'n cynnig amodau defnyddio mwy hyblyg. Rhagwelir y bydd y newidiadau penodol hyn yn cynyddu nifer y prydlesau ac yn y pendraw yn gwella egni a deiliadaeth marchnad Pen-y-bont ar Ogwr.

(4) Dechrau rhaglen o farchnata a mentrau buddsoddi cyfalaf, o fewn cyllidebau presennol ac mewn partneriaeth â pherchnogion Canolfan Siopa'r Rhiw er mwyn gwella arwyddion, arddangosfeydd, amgylchedd a defnydd o'r Farchnad gan gynnwys 'Sgwâr Marchnad Ganolog agored newydd.

(5) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn.

(6) Nodi gweithredoedd Partneriaeth Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr mewn cydweithrediad â phartïon sydd â diddordeb er mwyn ceisio gweithredu'r newid effeithiol i Farchnad Pen-y-bont yn y tymor hir.

216. CRONFA YMGYSYLLTU TWRISTIAETH RANBARTHOL CROESO CYMRU, PROSIECT MORLUN PORTHCAWL (DARGANFOD PORTHCAWL)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad i roi'r diweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â chais ar gyfer cyllid i Gronfa Ymgysylltu Ranbarthol Croeso Cymru (RTEF) a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gael gwneud cytundebau gyda'r partneriaid cyflwyno Credu Charity Ltd (Cwmni Harbourside Community Interest (CIC) gynt) ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i gefnogi cyflwyno Prosiect Morlun Porthcawl.

Cadarnhaodd fod gan CBSP hanes cryf o gyflwyno prosiectau partneriaeth trwy RTEF, yn ogystal â deall gwerth twristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, nid o fewn yr ardaloedd arfordirol yn unig ond mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref hefyd.

Cynghorodd fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus gyda chais, ac wedi derbyn £78k tuag at gyfanswm cost prosiect o 90k ar gyfer yr uchod. Roedd y prosiect hefyd yn cael ei ariannu gan eraill fel y dangosir ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad, tra bod paragraffau 4.4 a 4.5 yn amlinellu'r math o weithgareddau a phrofiadau y byddai'r prosiect yn eu creu.

Yn olaf, cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau mai CBSP fyddai'r prif sefydliad wrth gydlynu a chefnogi Prosiect Morlun Porthcawl, a bod cyfraniad CBSP o £12k wedi ei sicrhau o fewn cyllideb y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2018/19.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Nodi cymeradwyo cyllido drwy RTEF ar gyfer cyflwyno Prosiect Morlun Porthcawl.

(2) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Cyfreithiwr ar gyfer y Cyngor (a'r Swyddog Monitro), i ymrwymo i gytundebau gyda Credu Charity Ltd ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, er mwyn cyflwyno'u hagweddau nhw o'r prosiect.

217. DARPARIAETH I DDISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL:- SEFYDLU CANOLFAN ADNODDAU DYSGU I DDISGYBLION SYDD AG ANHWYLDER SBECTRWM AWTISTIG YN YSGOL GYNRADD PENCOED - ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim - Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad oedd yn hysbysu'r Cabinet am ganlyniad y broses gwrthwynebu statudol a gynhaliwyd gan CBSP yn achos y cynnig i sefydlu ASD LRC yn Ysgol Gynradd Pencoed.

Cadarnhaodd i'r Aelodau, er mwyn datblygu cynnig i sefydlu hyn o 1 Medi 2018, gwnaed ymarferion ymgynghori rhwng 9 Chwefror a 23 Mawrth 2018, gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion Ysgol Gynradd Pencoed, yn ogystal â'r gymuned ehangach yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim – Addysg a Chymorth i Deuluoedd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod hysbysiad cyhoeddus hwn.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a Llesiant yn falch o weld y bydd mwy o blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael cymorth i barhau mewn ysgolion prif ffrwd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Nodi na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r uchod yn ystod cyfnod yr hysbysiad cyhoeddus, ac o ganlyniad.

(2) Yn cymeradwyo gweithredu'r cais.

218. PROSIECT CYFALAF YSGOL GYNRADD CWMFELIN

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim - Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad ar y cyd i geisio cael cymeradwyaeth gan y Cabinet i argymhell i'r Cyngor ddiwygiad i'r Rhaglen Gyfalaf 2018 i 2028, i gynnwys cyllideb o £165k i adeiladu ystafell ddosbarth newydd yn Ysgol Gynradd Cwmfelin.

Cynghorodd fod cymeradwyaeth y Cabinet wedi ei derbyn ar 3 Mawrth 2015 er mwyn i'r Cyngor fabwysiadu egwyddorion diwygiedig fel fframwaith ar gyfer trefnu ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a gosodwyd 5 prif egwyddor er mwyn hysbysu'r sefydliad a moderneiddio ysgolion, fel y nodwyd ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad.

Eglurodd fod set o egwyddorion oedd yn berthnasol i ysgolion cynradd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon mawr i bwrpas, ac ar gyfer effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran disgyblion yn dysgu, ac addysgu. Roedd y sefyllfa o ran meintiau annigonol y dosbarthiadau yn yr ysgol benodol hon yn rhoi pwysau ar addysgu a dysgu'r rhain, ac fe gadarnhaodd darpariaethau'r adroddiad sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai'r amcangyfrif o gost y prosiect, h.y. darparu gofod dosbarth newydd sbon ar gyfer 20 disgybl yw £165k, ac roedd cronfa wrth gefn a glustnodwyd o £150k ar gyfer hwn.

Ychwanegodd y byddai'r diwygio yn cael ei ddarparu ar y cyd gan y Gyfarwyddiaeth Cymorth Ysgol, Addysg a Theulu ar sail 1 50:50.

Nododd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar argymhellion yr adroddiad, a gofynnodd a oedd y gofod ychwanegol arfaethedig oedd yn cael ei ddarparu gan yr Ysgol wedi ei seilio ar y niferoedd arfaethedig o ddisgyblion ar gyfer y dyfodol; a oedd hyn yn briodol, ac os felly am ba hyd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim – Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gofod ychwanegol wedi ei ystyried ar sail y twf a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol yn yr ardal ynghyd ag ystyried hefyd ddemograffeg yr ardal lle mae'r ysgol wedi'i lleoli.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf er mwyn cynnwys cyllideb o £165k i ariannu'r gofod dosbarth newydd sbon yn Ysgol Gynradd Cwmfelin, gan ddefnyddio adnoddau wrth gefn wedi eu clustnodi a chyllidebau'r ysgol a'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

## 219. AILDDYRANNU CYNLLUN DIRPRWYO'R CYNGOR O SWYDDOGAETHAU SY'N YMWNEUD Â'R GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU GWEITHREDOL A PHARTNERIAETHOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, gan geisio cymeradwyaeth y Cabinet am drosglwyddo swyddogaethau Gweithredol yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau sydd wedi'u dyrannu i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol ar hyn o bryd.

Cynghorodd yr adroddiad, er mwyn cynnal prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol cynigiwyd bod yr holl Swyddogaethau Gweithredol yng Nghynlluniau B1 a B2 o'r Cynllun yn cael eu dyrannu o'r swydd uchod nad yw'n bodoli mwyach, i'r Swyddog Monitro, ac eithrio'r swyddogaethau hynny a amlinellwyd ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad yn ymwneud â Swyddogaethau Tai, a gaiff eu hailddyrannu i'r Prif Weithredwr.

Cynghorodd y Cyfreithiwr i'r Cyngor a'r Swyddog Monitor wrth y Cabinet y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yfory gan gynnig newidiadau tebyg i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau ar gyfer y Cyngor (yn hytrach na'r Cabinet) o fewn Cynlluniau B1 a B2.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Cymeradwyo trosglwyddo swyddogaethau Gweithredol yng Nghynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor o'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol i'r Swyddog Monitro.

(2) Cymeradwyo trosglwyddo swyddogaethau'r Gweithredol a amlinellwyd ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad o'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol i'r Prif Weithredwr.

(3) Nodi y caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor yn cynnig newid tebyg i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau ar gyfer penderfyniadau'r Cyngor.

220. RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU (CPR) DIWYGIEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet:

- I'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig ddod i rym o 1 Awst;
- I'r Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol gael ei ddiwygio yn unol â pharagraff 4.8 o'r adroddiad; a
- Nodi y caiff adroddiad ei gymryd i'r Cyngor i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r diwygiadau i'r CPR

Gwnaeth y Cyfreithiwr i'r Cyngor a'r Swyddog Monitro gadarnhau drwy wybodaeth gefndir, fod y Cyngor yn y broses o adolygiad corfforaethol ac fel rhan o hyn, roedd y CPR wedi'u hadolygu a'u diweddaru.

Aeth ymlaen drwy gynghori bod nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r CPR presennol er mwyn sicrhau bod cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ac i foderneiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Cafodd copi o'r CPR ei atodi i'r adroddiad yn Atodiad 5.

Cafodd y newidiadau i'r rhai eu cynnwys ym mharagraffau 4.2 i 4.21 o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig a atodir yn Atodiad 5 i ddod i rym o 1 Awst 2018.
(2) Cymeradwyo bod y Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol yn cael ei ddiwygio yn unol â pharagraff 4.8 o'r adroddiad.
(3) Nodi y caiff adroddiad ei gymryd i'r Cyngor i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r diwygiadau i'r CPR.

221. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol adroddiad, a diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf tan 31 Hydref 2018.

Yn unol â darpariaeth o Gyfansoddiad y Cyngor bydd y Flaenraglen Waith yn cwmpasu cyfnod o bedwar mis, ac yn cynnwys materion y mae'r Pwyllgorau Cabinet, Trosolwg a Chraffu a'r Cyngor yn debygol o'u hystyried, ar ffurf cynlluniau, polisïau a strategaethau sy'n ffurfio rhan o Fframwaith Polisi'r Awdurdod.

Caiff y Flaenraglen Waith ei hystyried yn chwarterol gan y Cabinet a'i chyhoeddi ar y dyddiadau a ddangosir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Cafodd y Flaenraglen Waith ar gyfer y Cabinet ar gyfer y cyfnod a nodwyd uchod ei hatodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a gwnaeth Atodiadau 2 a 3 amlinellu Blaenraglen Waith y Cynfor ar gyfer yr un cyfnod a'r Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu, yn y drefn honno.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf tan 31 Hydref 2018, fel y dangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
(2) Nodi Blaenraglen Waith y Cyngor a Chraffu fel y dangosir yn Atodiad 2 a 3 i'r adroddiad, yn y drefn honno.

222. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL A CHYDBWYLLGORAU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol a'r Swyddog Monitro adroddiad, a geisiodd gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer penodi Aelodau i'r Cydbwyllgorau a Chyrff Allanol.

Roedd rhestr o'r rhain wedi'i hatodi i'r adroddiad yn Atodiad 1.

Cadarnhaodd y Cyfreithiwr i'r Cyngor a'r Swyddog Monitro, y cynigiwyd bod penodiadau Aelodau am dymor o un flwyddyn, ac eithrio lle mae dirymu penodiad cynharach o benodiad yn briodol.

Nododd yr Arweinydd mae'r enwebiad a gynigir ar gyfer Ymddiriedolaeth Neuadd y Dref oedd y Cynghorydd Charles Smith nid y Cynghorydd Stephen Smith fel y nodir yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn penodi'r nifer gofynnol o Aelodau i'r Cydbwyllgorau a Chyrff Allanol eraill fel y rhestrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

223. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol adroddiad, a diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Cabinet am yr Adroddiadau Gwybod i'w nodi sydd wedi'u cyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf.

Rhoddwyd manylion am yr Adroddiadau Gwybodaeth ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD: Cydnabu'r Cabinet gyhoeddi'r dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad cwmpasu.

224. CAFFAEL GWASANAETHAU RHEOLI GWASTRAFF A DDARPERIR YN Y GANOLFAN ADFER DEUNYDDIAU AC YNNI (MREC) YN NHWYNI CRYMLYN, CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a Phennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r mater uchod.

Cynghorodd fod gan y Cyngor sefyllfa gytundebol bresennol a hirsefydlog gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot ("CNPT") o ran y Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni ("MREC") a leolir ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a chanddi dros 10 mlynedd ar ôl i redeg. Caiff rhai swyddogaethau gwaredu gwastraff eu cyflawni gan CNPT ar ran Pen-y-bont ar Ogwr, fel y nodir mewn cytundeb rhwng awdurdod ("y

Penodiad Gwreiddiol") a drefnwyd gan y ddau awdurdod ar adeg y Fenter Cyllid Preifat rheoli gwastraff wreiddiol yn 2000, ac fel y cafodd ei amrywio gan gytundeb dyddiedig 8 Medi 2010 ("y Cytundeb Amrywio").

Mae'r ffi waredu bresennol a godir gan y cyfleuster MREC yn sylweddol uwch na chyfraddau marchnad a dderbynnir. Felly, mae Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot fel rhan o'u cynlluniau ariannol tymor canolig wedi nodi arbedion yn erbyn y gost weithredol a atodir wrth y cyfleuster MREC. I gyflawni'r arbedion hyn mae'r ddau barti wedi cytuno i derfynu'r trefniadau presennol rhwng yr Awdurdod contractio (CNPT) a'r MREC, a rhoi contract wedi'i brofi gan y farchnad yn ei le, unwaith eto gyda CNPT fel yr Awdurdod contractio ac i ddisodli unrhyw benodiad/contract rhwng CBSP a CNPT i adlewyrchu'r trefniadau newydd hyn.

Wedi hynny gwahoddwyd cynigion yn seiliedig ar y dogfennau tendro gwreiddiol, a mynegodd dau gwmni ddiddordeb, ac wedyn cyflwyno cynigon. Fodd bynnag, wedyn gwnaeth un o'r cwmnïau hyn dynnu ei gynnig yn ôl.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau mai'r cynigydd sy'n weddill yw Walters Plant Hire Limited ("Walters"). Gwnaethant gadarnhau ar ddiwedd 2017 eu bod yn dymuno parhau i gael eu hystyried ar gyfer y dyfarniad contract yn unol â'u cynnig tendro.

Yna amlinellodd Paragraff 4.1 o'r adroddiad nifer o bwyntiau a chrynhoi'r cynigion wrth gymharu â threfniadau presennol, gan gynnwys manylion am y broses gaffael sydd wedi'i dilyn yn ogystal â threfniadau'r Cytundeb Amrywio rhwng CBSP a Chastell-nedd Port Talbot.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, fel gyda phob proses gaffael, fod bob amser risg o her. Fodd bynnag, mae CNPT a Phen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu lliniaru risg o'r fath drwy gyhoeddi Hysbysiad VEAT i ddileu'r risg o'r contract yn cael ei roi i'r neilltu ar ôl ymrwymo iddo ac unrhyw risg gysylltiedig o ddirwyon (ond nid y risg o hawl am iawndal os bydd her ddilynol).

Yn ogystal, ceir amrywiaeth o faterion eraill y bydd angen i CNPT ymdrin â hwy fel perchnogion y safle MREC.

Ar yr un pryd ag ymrwymo i'r cytundeb gwasanaethau gwastraff, cynigir bod CNPT a Walters yn ymrwymo i brydles ar gyfer safle MREC, ar hyd y llinellau a nodwyd yn yr adroddiad.

Parhaodd ei gyflwyniad drwy gynghori bod trefniadau gyda NPTRL ar gyfer darparu gwasanaethau gwastraff yn dod i ben ar ôl dechrau'r gwasanaethau i'w darparu gan Walters. Ar y pwynt hwnnw bydd yn ofynnol i Gyfarwyddwyr NPTRL ddirwyn y cwmni i ben.

Roedd copi o'r Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi' gwblhau yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

I gloi, yna gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau amlinellu goblygiadau ariannol yr adroddiad gan ychwanegu fel rhan o hyn, y byddai CBSP yn sicrhau arbedion sylweddol fel rhan o'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, os bydd y cynnig o'r Contract diwygiedig yn cael ei sicrhau'n llwyddiannus.

Nododd Aelod ei fod yn edrych ymlaen o dan drefniadau'r dyfodol i CBSP gael cytundeb partneriaeth cyfartal â CNPT wrth fynd ymlaen, a'i bod yn hynod bwysig sicrhau'r

arbedion o ran MREC a oedd wedi'i sefydlu o dan delerau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog S151 y bydd y Cytundeb angenrheidiol yn ofynnol i'w lofnodi o hyd cyn bod y sefyllfa bresennol yn symud ymhellach ymlaen. Ychwanegodd y byddair' Cyngor hefyd yn gwneud cais am gyfrifyddu banc agored mewn perthynas â chau Cwmni Ailgylchu Castell-nedd. Byddai dirwyn y broses hon i ben yn cymryd tua 9 mis, er bod CBSP yn gwthio am gynnydd mor gyflym ag y gallai.

Ychwanegodd ymhellach y byddai adroddiad tebyg a ystyrir gan y Cabinet heddiw, yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn CNPT.

Cwblhaodd yr Arweinydd y ddadl ar yr eitem hon drwy ddatgan ei fod yn edrych ymlaen at ddechrau pennod newydd gyda CNPT, a'i fod yn siŵr y byddai hwn yn drefniant mwy llwyddiannus nag ar hyn o bryd, a fyddai'n rhoi mwy o werth am arian i'r trethdalwr, mewn perthynas â sicrhau bod eu deunyddiau gwastraff yn cael eu casglu a'u gwaredu'n briodol.

PENDERFYNWYD:

(1) Bod y Cabinet yn derbyn, yn amodol ar CNPT yn ymrwymo i'r Penodiad newydd a dirwyn i ben yr hysbysiad VEAT ac os na fyddai unrhyw hysbysiad o her, y cynnig a gyflwynwyd gan Walters Plant Hire Limited ym mis Mai 2016.

(2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Interim a Swyddog Adran 151 a'r Cyfreithiwr i'r Cyngor/Swyddog Monitro i negodi a setlo'r telerau terfynol o'r Penodiad newydd ac ar ôl hynny awdurdodi'r Cyfreithiwr i'r Cyngor/Swyddog Monitro ymrwymo i'r Penodiad dywededig ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig.

(3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfreithiwr i'r Cyngor/Swyddog Monitro i gytuno â Chyngor CNPT i gyhoeddi Hysbysiad Tryloywder Ex-Ante Gwirfoddol ("Hysbysiad VEAT") yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

227. CAFFAEL GWASANAETHAU RHEOLI GWASTRAFF A DDARPERIR YN Y GANOLFAN ADFER DEUNYDDIAU AC YNNI (MREC) YN NHWYNI CRYMLYN, CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Daeth y cyfarfod i ben am 17:00